Ysgol Penrhyn-coch

Ar ddechrau 1989 braf oedd cael croesawu dau ddisgybl pedair oed i'r ysgol, Gemma Lockyear a Peter Jones. Erbyn hyn mae'r ddau yn hapus a chartrefol yn ein plith.

Bu'r mis cyntaf o'r tymor yn un prysur iawn i'r plant ym myd chwaraeon. Aeth y bechgyn i gystadlu yng nghystadleuaeth bêl-droed pump bob ochr y cylch gan wneud gwaith canmoladwy iawn. Dangosodd y merched hefyd eu dawn i'r un cyfeiriad wrth iddynt hwythau gystadlu yn y gystadleuaeth bêl-droed i ferched.

Daeth llwyddiant i ran tîm pêl-rwyd yr ysgol wrth iddynt ennill y gystadleuath i ysgolion y cylch - grŵp B yn y gampfa ym Mhenglais un prynhawn. Roedd y rownd derfynol yn erbyn Ysgol y Berth yn un gyffrous iawn ac wedi amser llawn cyfartal oedd y sgôr. Rhaid felly oedd chwarae amser ychwanegol a'r tîm cyntaf i osod y bêl yn y rhwyd fyddai'n cipio'r safle blaenaf. Llwyddodd Lisa Humphreys i wneud hynny a daeth buddugoliaeth i'w rhan wedi prynhawn hwyliog a difyr. Da iawn ferched.